Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Cylch Meithrin Cerrigydrudion

**Canolfan Addysg**
**Ffordd Yr Alwen**
**Cerrigydrudion**
**LL21 9SW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Cerrigydrudion

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Cerrigydrudion |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin a Ti a Fi Cerrigydrudion |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Llinos Hughes a Meinir Hughes |
| Person â gofal | Delyth Owen |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2.5 – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 20 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun a Dydd Gwener: 09:00-15:30 Dydd Mawrth a Dydd Iau: 11:30-15:30 Dydd Mercher: Ar gau |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolwg cyntaf ers ail gofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2014. |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/06/2023 |
| Dyddiad ailgofrestru – 20 Mawrth 2023 | |

## Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Ffurfioli prosesau rheoli perfformiad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan blant lais cryf ac maent yn cael cyfleodd cyson i wneud dewisiadau. Wrth iddynt gyrraedd, maent yn mynd yn syth at eu hoff ardal ac yn ymgysylltu’n ystyrlon â’r gweithgareddau. Maent yn cael cyfleoedd buddiol i arwain eu dysgu a’u profiadau. Er enghraifft, maent yn penderfynu sut a ble i greu ardal benodol ar gyfer y beiciau. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau yn ystod sesiwn grŵp, ac maent yn ffyddiog y bydd ymarferwyr yn dangos diddordeb yn yr hyn sydd ganddynt i’w rannu.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gwbl gartrefol yn y lleoliad ac yn mwynhau mynychu. Maent yn ymdopi’n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr ac yn cyrraedd y brif ystafell yn hapus ac yn hyderus. Maent wedi datblygu perthynas agos gyda’r ymarferwyr ac yn hyderus iawn wrth sgwrsio’n anffurfiol ag ymwelwyr. Er enghraifft, maent yn trafod adeiladu awyren ac i ble mae’r awyren yn teithio. Mae bron bob un yn gyfarwydd â’r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio’n rhwydd â’r gweithdrefnau, sy’n creu sicrwydd iddynt wrth ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cymdeithasu a rhyngweithio cadarn. Maent yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr a'u cyfoedion. Er enghraifft, wrth y bwrdd byrbryd maent yn sgwrsio’n hollol naturiol gan wrando ar ymatebion ei gilydd. Maent yn cydweithio ac yn rhannu adnoddau yn llwyddiannus. Wrth chwarae gêm loto, maent yn dysgu sut i gymryd eu tro ac maent yn amyneddgar iawn.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae ac yn datblygu medrau effeithiol wrth arbrofi a dysgu. Er enghraifft, maent yn cael llawer o hwyl wrth chwarae gyda thywod a cherbydau cloddio gan gydweithio’n dda i lwytho’r bwcedi a

symud y tywod. O ganlyniad, mae bron bob un yn ymateb yn llawn cyffro wrth chwarae yn yr ardal allanol.

Mae’r plant yn mwynhau cyfleoedd da i ddatblygu annibyniaeth, sy’n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Maent yn cymryd cyfrifoldeb dros eu hylendid personol. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo yn y ffynnon ddŵr yn dilyn gweithgareddau fel paentio a thoes. O dan gyfarwyddyd, maent yn golchi dwylo ar ôl bod i’r tŷ bach neu cyn bwyta. Mae helpwr y dydd yn cymryd y cyfrifoldeb o helpu i baratoi a gosod y bwrdd. Maent yn gwneud dewisiadau ynglŷn â beth i chwarae ac yn dewis yr offer sydd angen arnynt. Maent yn datrys problemau’n hyderus. Yn ystod chwarae rhydd, maent yn archwilio sut i greu llwybr pren. Maent yn symud adnoddau o ardaloedd eraill ac yn eu defnyddio yn bwrpasol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac yn gweithredu eu polisïau a’u gweithdrefnau’n llwyddiannus. Maent yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau ac anafiadau ac maent yn hyderus ar sut i weithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch plentyn. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod gan yr ymarferwyr sy’n gofalu am blant dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol. Nid ydynt wedi cael achos i weinyddu meddyginiaeth ond mae ganddynt bolisi addas a ffurflenni cywir i gofnodi os oes angen. Maent yn gweithredu systemau asesu risg yn effeithiol ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol effeithiol i adnabod a lleihau risgiau. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo arferion da i sicrhau eu bod yn cadw plant yn iach ac yn annog arferion bwyta iach. Er enghraifft, maent yn trefnu sesiynau storïau actif, symud a dawnsio gyda’r plant ac yn cynnal gweithgareddau dyddiol yn yr awyr agored i gael awyr iach. Mae’r gweithdrefnau newid clytiau yn cyd-fynd â chanllawiau presennol ar reoli heintiau. Mae ymarferwyr yn mynychu cyrsiau i gefnogi unrhyw blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf i ymdrin ag anghenion unigolion.

Mae ymarferwyr yn datblygu perthynas gynnes â’r plant trwy eu trin â gofal a pharch. Maent yn canmol y plant yn aml, sy’n effeithio'n gadarnhaol ar eu hunanhyder a’u dealltwriaeth o barchu ei gilydd. Mae pob ymarferydd yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant sydd ac mae hynny’n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn cefnogi'r plant i reoli eu dewisiadau yn effeithiol. Maent yn cynnig cysur pan fo angen ac maent yn fedrus wrth gefnogi’r plant i reoli eu teimladau ac ymuno mewn

gweithgareddau. Maent yn sgwrsio â'r plant yn fwriadus ac yn achub ar gyfleoedd i fwydo geirfa Cymraeg newydd a chyfoethog.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb i ddiddordeb plentyn ac yn trafod y blodau mae wedi casglu i'w rhannu yn y cylch. Mae ymarferwyr yn datblygu cyfleoedd effeithiol i ymateb i ddiddordebau'r plant, ac yn eu holi'n bwrpasol. Maent yn manteisio ar gyfle i gyfri coesau'r anifeiliaid gyda'r plant ac i'w holi wrth iddynt chwilota am drychfilod yn y tywod.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion pob plentyn yn eu gofal. O ganlyniad, maent yn darparu cwricwlwm mewn cyd destunau dilys i ennyn diddordeb a hybu dysgu'r plant yn llwyddiannus, er enghraifft wrth fynd ar daith natur i ddarganfod gwahanol fathau o flodau gwyllt.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas waith dda gyda'r holl blant. Maent yn modelu gweithgareddau ac yn cefnogi chwarae rhydd ac arbrofol y plant yn ddeallus, gan bwyso a mesur pryd a sut i ymyrryd er mwyn cyfoethogi'r dysgu. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i fod yn greadigol gyda thoes wedyn yn eu harsylwi yn torri, gwasgu ac ymestyn y toes i greu blodau a phryfed cyn eu cwestiynu'n gelfydd.

Mae ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar wella medrau Cymraeg y plant trwy ganu bywiog a chyflwyno ac atgyfnerthu geirfa a phatrymau iaith yn gyson. Maent yn cymell y plant yn effeithiol i greu marciau gydag amrywiaeth o gyfryngau, ac yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau rhifedd wrth gyfri a didoli blodau yn ôl maint a lliw. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth yn datblygu medrau cynnar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn briodol yn unol â'u hoed.

At ei gilydd, mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau arsylwi addas i asesu datblygiad y plant gan addasu'r ddarpariaeth yn briodol yn sgil y wybodaeth hon. Mae ymarferwyr yn cynllunio nifer o weithgareddau tu fewn a thu allan sy'n annog plant i fentro, i ddatblygu eu medrau corfforol ac i ddod yn archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn eu hannog i fentro ac arbrofi gyda symud mewn amrywiaeth o ffurfiau, i gydbwyso, gyrru beiciau, palu ac adeiladu. Yn ogystal, maent yn darparu gweithgareddau creadigol buddiol i'r plant fel arbrofi gyda phaent a chyfansoddi rhythmau gwahanol wrth daro offerynnau yn yr ardal allanol.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn llwyddiannus. Maent yn dathlu amrywiaeth yn dda trwy ddarparu cyfleoedd i'r plant chwarae ag ystod o adnoddau priodol, ac wrth astudio gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Maent hefyd yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn llwyddiannus trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hanes Santes Dwynwen. Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu sut i ofalu am bethau byw fel blodau a phryfed.

Maent yn datblygu cyfleoedd effeithiol i fagu hyder ac annibyniaeth y plant. Maent yn annog y plant i gymryd eu tro er mwyn deall pwysigrwydd rhannu a chwrteisi. Er enghraifft, maent yn disgwyl iddynt weini bwyd a diod i'w gilydd amser snac cyn tacluso ar eu holau ac ailgylchu.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ar gyfer y plant. Mae'r fynedfa yn ddiogel ac mae'r drysau allanol yn cael eu cloi yn ystod oriau agor. Gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi yn brydlon a chedwir cofnodion manwl. Mae gwiriadau cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd ac mae rhain yn cael eu gwerthuso yn fanwl. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn gwirio a glanhau adnoddau'n rheolaidd. Mae asesiadau risg pwrpasol yn eu lle ar gyfer yr adeilad, yr ardal tu allan ac ar gyfer gweithgareddau penodol. Mae'r rhain yn bwydo'r rhestr wirio ddyddiol y mae ymarferwyr yn ei gweithredu i leihau risgiau i blant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod systemau ar gyfer casglu a derbyn plant ar ddechrau a diwedd sesiynau yn drwyadl.

Mae ansawdd yr amgylchedd yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd i blant chwarae a dysgu tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon uchel, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae arweinwyr yn darparu cyfleusterau addas ac mae'r tai bach yn sicrhau cyfleoedd i barchu preifatrwydd plant. Mae modd i blant ymgynnull amser bwyd yn yr ystafell fwyta gan ddefnyddio celfi sydd yn addas i'w hoedrannau. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r ardal allanol trwy gynllunio amserlen benodol. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â'r amgylchedd ac yn symud yn hyderus rhwng yr ystafelloedd a'r ardal allanol.

Mae'r brif ystafell wedi ei threfnu'n fwriadus i gynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud o un weithgaredd i'r llall yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac mae arddangosfeydd deniadol yn creu ymdeimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, maent yn darparu arddangosfeydd o ffotograffau'r plant yn ymgymryd â gweithgareddau a gwaith celf a chrefft. Mae corneli cysurus wedi eu trefnu'n bwrpasol er mwyn cynnig cyfleodd i blant orffwys a chael amser tawel i ganolbwyntio.

Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol. O ganlyniad, mae'r plant yn dechrau dod yn gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i'r mannau priodol. Maent yn darparu cyfleusterau ailgylchu amrywiol ac mae'r plant yn defnyddio'r rhain yn annibynnol yn ystod gweithgareddau celf a chrefft yn ogystal ag amser byrbryd. O ganlyniad, mae hyn yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda drwy sicrhau bod gan y plant ddealltwriaeth fuddiol o gynaliadwyedd ac ailgylchu.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar gynnig profiadau dysgu difyr i ddatblygu lles a dysgu'r plant o fewn awyrgylch teuluol, ysgogol a hapus. Mae'r arweinydd yn gweithio'n gydwybodol gyda'r ymarferwyr ymroddgar i greu

amgylchedd cyfoethog ac i sicrhau bod eu prosesau effeithlon yn sicrhau gwelliannau cyson yn neilliannau'r plant o fewn awyrgylch Gymreig.

Mae'r lleoliad yn datblygu gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn sy'n effeithio'n dda ar arferion y lleoliad. Rhoddi'r ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad, a gwneir defnydd da o'r cynllun datblygu er mwyn ymateb i'r blaenoriaethau a nodwyd, ac i werthuso cynnydd. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn rhoi'r targedau hyn ar waith yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth ymgyfarwyddo â'r cwricwlwm newydd ac ymateb i anghenion hyfforddiant yr ymarferwyr.

Mae gan y lleoliad brosesau anffurfiol ar gyfer goruchwylio ac arfarnu gwaith yr arweinydd a'r ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi eu ffurfioli'n ddigon cadarn.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r gyllideb a'r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn blaenoriaethau yn ddoeth. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant priodol, a thrwy gyllido adnoddau defnyddiol, fel beiciau a'r gegin fwd, yn hyrwyddo profiadau cyffrous a gwerthfawr i'r plant.

Mae gan y lleoliad nifer o bartneriaethau buddiol. Maent yn cydweithio gyda'r rhieni, y gymuned ac asiantaethau allanol i wella'r ddarpariaeth ac i gyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r cyfleoedd i ymweld â'r parc, llyfrgell, siopau, cofeb rhyfel, a swyddfa'r post i bostio llythyr at Siôn Corn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r ardal yn dda. Yn ogystal â hyn, mae cydweithio llwyddiannus rhwng y lleoliad a'r ysgol i rannu'r safle yn ddeallus a chynllunio trefniadau effeithiol yn sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg yn ddidrafferth.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 15 Awst 2023